

LIC23-11

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2023

Gwnaed 17 Mawrth 2023

Yn dod i rym 1 Ebrill 2023

Mae Gweinidogion Cymru yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 19(1), 203(9) a (10) a 204(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2023.

(2) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 1 Ebrill 2023.

(3) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre(2).

Diwygiadau i Gyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Rhif 2) 2017

2. Mae Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Rhif 2) 2017(3) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

- (1) 2006 p. 42.
- (2) Sefydlwyd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre gan Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) 1993 (O.S. 1993/2838), a ddiwygiwyd gan O.S. 2017/912 (Cy. 223) ac O.S. 2018/887 (Cy. 176); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Cyfarwyddydau hyn.
- (3) Fe'u diwygiwyd gan Gyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2018, Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2019, Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2020, Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2021, Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) (Rhif 2) 2021,

Diwygiadau i daliadau blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023 – 2024

3.—(1) Ym mharagraff 1 o Atodlen 1 (Personau Cymhwysol sydd â hepatitis C – Cyfnod I)—

- (a) yn is-baragraff (a), yn lle “£19,498” rhodder “£21,467”;
- (b) yn is-baragraff (b), yn lle “£29,569” rhodder “£32,555”.

(2) Ym mharagraff 1 o Atodlen 2 (Personau Cymhwysol sydd â hepatitis C – Cyfnod II), yn lle “£29,569” rhodder “£32,555”.

(3) Ym mharagraff 1 o Atodlen 3 (Personau Cymhwysol sydd â HIV), yn lle “£29,569” rhodder “£32,555”.

(4) Yn Atodlen 4 (Personau Cymhwysol sydd â hepatitis C a HIV)—

- (a) ym mharagraff 1—
 - (i) yn is-baragraff (a), yn lle “£40,135” rhodder “£44,189”;
 - (ii) yn is-baragraff (b), yn lle “£46,469” rhodder “£51,162”;
- (b) ym mharagraff 2, yn lle “£46,469” rhodder “£51,162”.


Diwygiadau i daliadau tanwydd gaeaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023 – 2024

4.—(1) Ym mharagraff 4 o Atodlen 1 (Personau Cymhwysol sydd â hepatitis C – Cyfnod I), yn lle “£561” rhodder “£618”.

(2) Ym mharagraff 4 o Atodlen 2 (Personau Cymhwysol sydd â hepatitis C – Cyfnod II), yn lle “£561” rhodder “£618”.

(3) Ym mharagraff 3 o Atodlen 3 (Personau Cymhwysol sydd â HIV), yn lle “£561” rhodder “£618”.

(4) Ym mharagraff 4B o Atodlen 4 (Personau Cymhwysol sydd â hepatitis C a HIV), yn lle “£561” rhodder “£618”.



Yr Athro Chris Jones Y Dirprwy Brif Swyddog
Meddygol, Llywodraeth Cymru, o dan awdurdod y
Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un
o Weinidogion Cymru
Dyddiad 17 Mawrth 2023